

Papur Pawb

Pris: 50c

Chwefror 2012

Rhif 376

Gareth yn ymddeol – tud 7



tud 3

Pobl a Phethe

tud 5 a 9

Ysgolion

tud 7

Teyrnged

tud 12

Chwaraeon

Dyfodol Bronglais

Gallai Ysbyty Bronglais ddymchwel 'fel pac o gardiau' dan gynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, yn ôl Dr John Ll.



Edwards, un o lawfeddygon hŷn yr ysbyty, pan holwyd ef ar Radio Cymru ddechrau'r wythnos hon.

Rodd Dr Edwards yn ategu datganiad o ddiffyg hyder yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd a wnaed gan dros 80% o feddygon Ysbyty Bronglais mewn llythyr at Trevor Purt, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda, yn ddiweddar. Pryder y meddygon – yn ogystal â gwleidyddion lleol o bob plaid, a thrigolion canolbarth Cymru – yw y bydd pwyslais y Bwrdd Iechyd yn ei ddogfen *Eich Iechyd Eich Dyfodol* ar ganoli arbenigedd meddygol yn sicr o arwain at gau rhai gwasanaethau allweddol ym Mronglais. Canlyniad hynny fyddai ei ddiraddio fel Ysbyty Cyffredinol sy'n gwasanaethu ardal eang iawn yn ymestyn dros Geredigion, rhannau o Bowys a de Meirionnydd.

Rhaid croesawu sylwadau'r meddygon hyn am dynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth eu penaethiaid biwrocrataidd o'r anawsterau ymarferol fyddai'n codi o symud rhai triniaethau meddygol o Aberystwyth i Gaerfyrddin. Mae'r datganiad hwn o bryder gan aelodau proffesiwn sy'n greiddiol i'r gwasanaeth iechyd yn dangos bod y bygythiad i Bronglais a wyntyllwyd yn gyhoeddus dros y misoedd diwethaf yn un real iawn.

Rhaid atgoffa'r biwrocratiaid nad ar sail demograffeg yn unig y dylid pennu statws ysbyty. Yn ardal *Papur Pawb* rydym i gyd yn gwybod pa mor hir a throellog yw'r ffordd i Gaerfyrddin i'r rhai iach o gorff, heb sôn am y cleifion. Ychwanegwch at hyn broblem cael ambiwlans i drosglwyddo unigolion ar frys i Glangwili; hyd yn oed nawr, ni ellir gwarantu bod ambiwlans golau glas ar gael mewn argyfwng.

Beth allwn ni ei wneud i achub dyfodol Ysbyty Bronglais? Mae cyfle i ddarllenwyr *Papur Pawb* leisio'u barn am wasanaethau iechyd i'r dyfodol yn yr ardal gan fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn eich gwahoddi i ymateb i'w holiadur ymgynghorol 'Eich Iechyd Eich Dyfodol' erbyn 2 Mawrth. [Gellir cwblhau'r holiadur arlein at

www.bihyweldda.cymru.nhs.uk/eichiechyd-eichdyfodol neu anfon at Opinion Research Services, Freeport (SS1018), Blwch Post 530, Abertawe SA1 1ZL.] Os byddwch yn derbyn eich copi o *Papur Pawb* yn ddigon buan, yna ewch i'r cyfarfod cyhoeddus ar ddyfodol Ysbyty Bronglais sydd i'w gynnal am 7 o'r gloch nos Wener 10 Chwefror yn Neuadd Goffa Penparcau. Mae cyfle hefyd i fynychu 'digwyddiad iechyd' a drefnir gan y Bwrdd Iechyd yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth rhwng 11 y bore a 6 yr hwyr ar 22 Chwefror.

Triathlon Tal-y-bont



Dwsin o feicwyr yn rasio am y gorau, gan gyrraedd cyflymder o hyd at 30 milltir yr awr a chwblhau rhai o ddringfeydd anoddaf y Tour de France – ond heb symud o'u hunfan. Ydi, mae'n swinio fel llinell agoriadol un o bosau Geraint Lloyd neu Eleri Siôn ar Radio Cymru, ond os galwch heibio Neuadd Tal-y-bont bob yn ail nos Fawrth yn ystod yr hydref a'r gaeaf, dyma'n union a welwch chi.

Parhad tudalen 8

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Ysgrifennydd:	Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd; Susan Lewis; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Mae cyfle i athletwyr ifanc serennu ar gyfres deledu newydd.

Mae Stwnsh yn chwilio am bobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfres chwaraeon newydd.

Cyfres newydd yw 'Y Sgwad' a fydd yn ymddangos ar Stwnsh fis Mai eleni. Trwy gyfres o gystadlaethau ac hyfforddiant proffesiynol nod y gyfres yw gwobrwyo y talent gorau o blith athletwyr ifanc Cymru. Dyma gyfle gwyh i athletwyr ifanc

ddod i'r amlwg.

Cystadleuaeth a fydd yn herio athletwyr o flwyddyn 8 a 9 wrth iddynt gystadlu mewn dros deuddeg camp Olympaidd a Pharalympaidd.


Caiff y gyfres ei ffilmio dros gyfnod o wythnosau yn ystod mis Mawrth hyd at fis Mai.

Rydym yn chwilio am bobl ifanc sydd wedi dangos yn barod awydd i gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol.

Am fwy o fanylion eboostiwh nia.roberts@boomerang.co.uk neu ffoniwch 02920 550579

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd Mr John M. Hughes, Dolau, i'r cyfarfod ar brynawn Mawrth, 10 Ionawr. Aeth â ni ar daith drwy ogledd Cymru wrth sôn am bobl a mannau diddorol yn siroedd Môn, Arfon, Dinbych, Fflint, Meirionnydd a Threfaldwyn, a diolchwyd iddo am brynawn difyr gan Myfanwy Rowlands. Roedd y te yng ngofal Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.



Fy Meibl Bach 1

Llongyfarchiadau i Eleri Huws, Pengwern, Tal-y-bont ar ei haddasiad diweddaraf 'FY MEIBL BACH I' a gyhoeddi gan Cyhoeddiadau'r Gair. Dyma'r ail gyfrol i Eleri ei haddasu, a bydd hon, fel yr un flaenorol, 'BEIBL BACH STORI DUW' yn sicr yn cael croeso mawr gan aelodau Ysgol Sul Bethel. Mae'r gyfrol yn lliwgar a deniadol ac yn anrheg delfrydol i blentyn.

Dyddiadur

Chweffor

- 12 Bethel 10 *Trefniant Lleol*
Nasareth
Rehoboth 10 *Bugail* (C)
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun
- 16 Sefydliad y Merched
Cynllunio ar Wydr
- 19 Bethel 10 *Gweinidog*
Nasareth
Rehoboth 10 *Gordon McDonald*
Eglwys Dewi Sant 11
Boreuol Weddi
- 20 Merched y Wawr
Dim ond Dwy
A Gymri di Gymru (Llio Silyn a Rhian Morgan)
- 25 Noson Hwyl Ddewi,
Neuadd Goffa Tal-y-bont,
Parti Cut Lloi a Chawl,
7 o'r gloch
- 26 Bethel, 2 *Gweinidog*
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
(Gwyl Ddewi)
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol
- 27 Neuadd Goffa – 7.30
Pwyllgor Cymuned
Ceulanamaesmawr
- 28 Drama 'Fala Surion'
Canolfan y Celfyddydau,
Aberystwyth

Mawrth

- 4 Bethel 10 *Uno yn Nasareth*
Nasareth 10 *Bugail*
Rehoboth 5 *Bugail*
Eglwys Dewi Sant 11–
Cymun Bendigaid
- 5 Cyfarfod Blynnyddol,
Cymdeithas Sioe
Tal-y-bont, Neuadd Goffa
Tal-y-bont 8 o'r gloch
- 5 Merched y Wawr *Dathlu*
Gwyl Ddewi (Llew Du)
- 9-10 Drama 'Sgint' Canolfan y
Celfyddydau, Aberystwyth

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen a Ceri, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Mawrth fydd Gwyn, Fal a Ian (01970 832560; maesgwyn@fsmail.net) Y dyddiad olaf i dderbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Mawrth, a bydd y papur ar werth ar 9 Mawrth.

CLWB CERDD MACHYNLLETH

cyngerdd ar 24 Chweffor
am 7-30 o'r gloch
yn Y Tabernacl
Machynlleth

CHWYIORYDD FUJITA

(Triawd piano)
mynediad (di-aelod)
£10 wrth y drws

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont
Nos Lun, 5 Mawrth
8 o'r gloch
yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Gwellhad Buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau at Heulwen Astley, Spar Tal-y-bont sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Athrofa Cymru, Caerdydd. Hoffai Evan a'r teulu ddiolch yn ddiifant i bawb am eu cefnogaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Betsan, Tanrallt a Caitlin, Claerwen, y ddwy wedi pasio Arholiad Piano gradd 1 gydag Anrhydedd. Mae'r ddwy yn ddisgyblion i Rose Chandler, Penclawdd Helyg, Comins Coch.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Ben Fothergill. Minafon, Tal-y-bont, ar ei ddwyddiad â Rachel Bott. Mae'r teulu Fothergill am fod yn brysur eleni gan fod chwarae Ben, Jo, yn priodi Nick Bryan yn Nhal-y-bont fis Medi.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i John Leeding, Glannant, Tre Taliesin sydd ddim yn hwylus ar hyn o bryd.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Mrs Leila Welling, Oak Cottage, Tre Taliesin, a fydd yn 101 oed ar 15 Chwefror.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Ann Watkin, Brynawel, Tre Taliesin ar ddod yn hen nain i Jack Llewelyn sy'n byw yn Llundain bell, mab cyntaf i'w hwyres Elen. Mae Mrs Watkin ar hyn o bryd yn aros yng nghartref Tregerddan am ychydig ar ôl bod yn anhwylyd dros y Nadolig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sarah a Jason Childs, 4 Teras Parc, Glandyfi sydd wedi cael eu trydedd mab ar 2/1/12. Ganwyd Brython Ceredig yn Ysbyty Bronglais heb drama fel ei frawd!

Gwellhad Buan

Bysiwch wella i Mrs Margaret Mair, Maesnant, Glandyfi sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Ar y Bocs

Braf oedd clywed Aron Dafydd, ŵyr Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont yn adrodd hanes ei ymweliad â Chambodia ar y rhaglen Newid Byd.

Pobl a Phethe



Platiau Priodasol

Derbyniodd Rhydian ac Eifiona Evans blât hardd gan aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch i ddathlu achlysur eu priodas yng nghinio Nadolig y Clwb. Cyflwynwyd y rhodd gan Mr a Mrs Tegwyn Lewis, Rhosgoch.

Amser rhoi'r traed i fyny!

Dymuniadau gorau i Mair Morgan, Fflat Aberceulan sydd wedi ymddeol ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth yng Ngholeg Amaethyddol Llanbadarn.

Dymuniadau gorau hefyd i Eryl Bray, Tirna-Nog, Tal-y-bont, ar ei hymddeloiad.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Anwen Howard, Brynfa, Tal-y-bont sydd newydd ddechrau yn ei swydd newydd gyda Menter a Busnes ym Mharc Gwyddoniaeth, Llanbadarn.

Diolch

Dymuna Papur Pawb ddiolch yn fawr iawn i Mrs Lynn Hammonds, Bryn y Wawr, Tal-y-bont am ei gwasanaeth diflino i'r papur yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

PANTOmeim

Sawl un ohonoch fu'n gweld perfformiad o'r pantomeim 'Robin Hood' yng Nghanolfan y Celfyddau'n ddiweddar? Sawl un ohonoch a adnabyddodd Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont a oedd yn rhan o'r criw perfformio oedd ar y llwyfan? Da iawn ti Jenny.

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Cawsom gynghorion buddiol yn y cyfarfod ar nos Lun 16 Ionawr, pan ddaeth Dr Hedd Piper atom i sôn wrthym am ei waith fel ceiropractydd yn Aberystwyth. Gan fod llawer o bobl yn dioddef o anhwylderau megis poen cefn, pen tost, seiatia ac yn y blaen, mae'r ceiropractydd yn medru ar ôl iddo ddarganfod achos yr anhwylder yn y lle cyntaf. Talwyd y diolchiadau gan Eryl Evans, a pharatowyd y te gan Diana Jones ac Eryl Evans

Yn yr Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Mr. Jim Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont sydd wedi treulio cyfnod yn ysbyty Bronglais. Hefyd croeso adre i Arwyn Evans, Cefngweiriog sydd wedi derbyn triniaeth yn ysbyty Glangwili. Bydd teithwyr bysus Lloyds wrth eu bodd yn gweld Arwyn a'i wen serchog wrth y llyw unwaith eto.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Eirian Evans, Garnwen, Tal-y-bont wedi iddi gael damwain a brifo'i hysgwydd.

Babis Ymhobman!

Bydd palmentydd Tal-y-bont yn frith o fygys yn ystod y misoedd nesaf gyda'r holl genedigaethau sydd wedi, neu sydd ar fin digwydd!

Llongyfarchiadau a chroeso i Hari Wyn bach, Mam a Dad, sef Lisa Southgate a Dafydd Williams, Dwylan, Tal-y-bont.

Danfonwn ein dymuniadau gorau hefyd i Lindsay Pope a Chris Glover, 5 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont ar enedigaeth mab, brawd bach i Aaron a Megan.

Llongyfarchiadau mawr i Jessica a James Bath, Y Glyn, Tal-y-bont sydd wedi cael merch fach, Rafaella Rose.

Hefyd i Helena a Jeremy Day ar enedigaeth merch fach, wyres i Joe a Jill Wareing Braichgarw.

Croeso i'r Pentref

Estynnwn groeso twymgalon i Catrin Fychan a'i merch Cati i rhif 1 Stryd James Tal-y-bont.

Ar yr hewl!

Llongyfarchiadau mawr i Anwen Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont ar basio'i phrawf gyrru.

Cerddor o fry.

Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar basio arholiad theori gradd 5 gyda chlod.

Cyrraedd y Deunaw

Dymuniadau gorau i Sion Southgate a Nia Jones ar ddathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Glenda Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais ar golli ei mamgu yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn gyda Rebecca Williams, Mur Mawr ar golli ei thadcu, Edward Williams, yn ddiweddar a oedd yn 108 oed.



Cinio blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Daeth aelodau, swyddogion a ffrindiau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch ynghyd i ddathlu eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Tegwyn a Aldwyth Lewis, Rhosgoch a'r gwr gwadd oedd Mr Aneurin Davies. Gweler y cwpanau a'r tarianau a enillwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn.

Och Aye!

Dyma lun o'r parti a gynhaliwyd yn Llanfach, Taliesin ar 25 Ionawr i ddathlu Noson Robbie Burns. Trefnodd Andrew a Janie Agnew y parti. Mae'n nhw'n cynnal clwb dawnsio Albaneg yn Eglwysfach pob mis. Daeth ffrindiau o Aberystwyth i gefnogi y noson. Cafwyd gwledd o fwyd yn cynnwys "haggis, tatties a neeps". Diolch i Janet Hardy am drefnu y dawnsio.



TALYBONT JUVENILE CHOIR, 1925-26.

Conductress: Miss M. E. WILLIAMS, A.L.C.M. Accompanist: Miss PHYLIS EDWARDS.



Pwy 'di pwy?

Mae John Dewi, Bryn Eleri, Tal-y-bont wedi bod yn crafu ei ben yn trio dyfalu pwy yw'r plant yn y llun. Os oes gwaed ditectif ynoch, cysylltwch â John Dewi.

Ysgol Llangynfelyn

Cystadleuaeth Argos

Llongyfarchiadau i Seamus Byrne, Blwyddyn 2 am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth arlunio gyda chwmni Argos yn ystod gwyliau'r Nadolig. Tynnodd Seamus lun o Sïon Corn a'r corachod. Enillodd £30 i wario yn Argos a phrynodd gemau 'Beyblades' gyda'r arian.

Twrnamaint pêl-rwyd yr Urdd

Aeth deg o blant Cyfnod Allweddol 2 i Ganolfan Hamdden Plasrug i gymryd rhan mewn twrnamaint pêl-rwyd. Bu chwarae brwd yn erbyn ysgolion eraill ardal Aberystwyth, er na aeth y tîm ymlaen i'r gêm derfynol.

Gala Nofio

Aeth y rhan fwyaf o ddosbarth Miss Jones i'r Gala Nofio i Ysgolion Bach Ardal Aberystwyth yn ddiweddar. Braff iawn oedd gweld pob un o'r plant yn trio eu gorau glas yn y rasy. Llwyddodd Willow, Gracie, Ben, Poppy a Milly i fynd trwyddo i gystadlu yn erbyn Ysgolion Mawr yr Ardal. Da iawn chi blant!

Ymweliad â 'Playgroup' Taliesin

Aeth Mrs Nemes a phlant y Dosbarth Derbyn i ymweld â'r 'Playgroup' yn festri Rehoboth ar fore Dydd Iau ar ddechrau mis Ionawr. Bu ymwelydd o'r RSPB yn gwneud cacennau bwyd adar gyda'r plant. Mwynhaodd y plant chwarae gyda'r plant bach eraill ac roedd hi'n hyfryd cael cyfle i gael paned a sgwrs gyda'r rhieni yn y festri. Bu'r plant yn gwneud mwy o'r cacennau adar ar ôl dod nôl i'r ysgol. Bu'r plant yn cyfrif faint o adar a welont yn bwyta'r cacennau i Gyfrif Mawr yr Ysgol yr RSPB. Byddwn yn danfon y rhifau fewn ar-lein er mwyn i'r RSPB weld faint o adar bach sydd yng Nghymru.

Blwyddyn Newydd Tsieinaidd

Bu plant yr ysgol yn gwneud gweithgareddau sy'n ynghlwm â'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd sef eleni - Blwyddyn y Ddraig. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn blasu bwyd Tsieinaidd ac yn actio fel yr anifeiliaid yn y stori. Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn dysgu am draddodiadau'r wyl. Uchafbwynt y dydd oedd y cinio Tsieinaidd. Coginiodd Jan ginio hyfryd i bawb yn cynnwys 'stir-fry' Tsieinaidd, reis, myffins draig a sudd. Daeth y plant a'u 'chopsticks' eu hunain i'r ysgol ar y diwrnod i fwyta'u cinio. Roedd hi'n ddiffr iawn eu gweld nhw â'r staff yn ceisio bwyta gyda'r 'chopsticks'!

Prynhawn Japan

Daeth Fumi, athrawes o Japan sy'n gweithio yn ysgol Penweddig i arwain plant Blynyddoedd 2 i 6 mewn gweithgareddau am Japan. Treuliodd y plant brynhawn hwyliog iawn yn dysgu cyfiri mewn Japaneaidd, gwneud cwpau Origami a dysgu ysgrifennu eu henwau.

Mynd am dro

Fel rhan o'u gwaith ar y thema Teithio, aeth plant y Cyfnod Sylfaen am dro o'r ysgol i Dre'r Ddôl. Mwynhaodd y plant sylwi ar adeiladau ar eu taith a buont yn enwi adeiladau a nodweddion naturiol. Roeddynt wedi gwirioni ar y defaid yng nghaeau Dolcletwr a Frongoch.

Pen-blwydd yr Urdd

Dathlodd aelodau'r Urdd ben-blwydd yr Urdd yn 90oed yng nghyfarfod yr Urdd ar ôl ysgol ar nos Iau Ionawr 26ain. Cafwyd cacen pen-blwydd i fwyta a chanodd bawb Pen-blwydd Hapus i'r Urdd! Dysgodd y plant ychydig hefyd am hanes yr Urdd.


Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



Cystadleuaeth
Argos



Elijah a Tilly'n
gwneud cacen
adar



Ymweliad â 'Playgroup' Taliesin



Blwyddyn Newydd Tsieinaidd



Mynd am dro



Pen-blwydd yr Urdd

Cartref Newydd i'r 'Queen' yng Ngweriniaeth Tsiec

Ychydig dros ddau fis yn ôl cafodd Dafydd, Tanrallt alwad ffôn annisgwyl gan Milos Svec, ffermwr defaid a gwartheg o'r Weriniaeth Tsiec. Roedd Milos yn awyddus iawn i brynu ci bach Cymreig. Ychydig o flynyddoedd yn ôl bu Milos ar ymweliad â'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ac yno daeth ar draws stondin Cymdeithas Y Cŵn Defaid Cymreig, a byth ers hynny roedd ganddo ddiddordeb mewn cael gafael ar rai o'r cŵn arbennig hyn. Credai y byddai'r ci Cymreig yn addas ar gyfer ei fath e o fferm gan fod y cŵn yn gallu gweithio gyda defaid a gwartheg. Mae Milos yn ffermio dau gant o wartheg a thros fil o ddefaid Suffolk. Mewn partneriaeth ag un o'i gymdogion roedd Milos yn chwilio am bedwar ci bach. Roedd hi'n bwysig felly nad oedd y pedwar ci yn perthyn i'w gilydd gan y byddent yn magu ohonynt yn y dyfodol. Gan fod y cŵn bach Cymreig yn cael eu cofrestru gan y Gymdeithas roedd hi'n eithaf hawdd olrhain eu llinach. Felly, ym mis Ionawr cyrhaeddodd Milos Tanrallt, gyda'i wraig a'i fab Jan, a oedd hefyd yn medru cyfieithu (diolch byth, gan nad yw Dafydd yn siarad llawer o Tsiec!) Roeddent wrth eu boddau pan welsant yr ast fach a phenderfynwyd ei galw'n Arglwyddes Queen. Felly ar ôl sgwrsio dros banded a gwneud yn siwr fod y gwaith papur i gyd yn ei le – pasbort, rhif microchip, tystysgrifau cofrestru rhieni'r ci bach, tystysgrifau brechiadau, llythyr o'r milfeddyg yn datgan ei bod yn iach i drafailio a llythyr gan Dafydd yn tystio nad oedd hi wedi bod mewn cysylltiad ag anifeiliaid gwyllt, roedd Arglwyddes Queen yn barod i gychwyn ar ei siwrnai hir i'w chartref newydd.

Mae Dafydd wedi bod mewn cysylltiad â Milos drwy e-bost wedi iddynt gyrraedd adref; caswsant siwrnai ddi-drafferth yn ôl i'r Weriniaeth Tsiec gyda'r pedwar ci bach. Prynwyd y tri ci bach arall gan aelodau eraill o'r Gymdeithas ar draws Cymru. Cymydog Milos yw perchennog newydd Arglwyddes Queen ac mae'n debyg ei bod yn deall rhywfaint o'r iaith Tsiec yn barod, gobeithio'n wir na fydd hi'n anghofio'i Chymraeg!

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Cŵn Defaid Cymreig ewch i'r wefan: www.cymdeithasycwndefaidcymreig.com neu cysylltwch â Dafydd: dafydd@tanrallt.free-online.co.uk



Arglwyddes Queen gyda'i perchennog newydd

Cymdeithas Alzheimer's | Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, body n gyfaill, a, gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli, mae yna rywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl yn dioddef o ddementia yng Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632

neu e-bostio:

gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GLANYRAFON

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

argraffu da
am bris da

yLolfa
holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

MID WALES STORAGE

Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Teyrnged

Enid Curigwen Griffiths, Glan Leri, Tal-y-bont.

Ganed Enid Curigwen ar yr 9fed Fehefin 1926 yn Llanidloes y cyntaf o blant Tom ac Edith Morgan. Tyfodd i fyny yn Steddfa Fach Llangurig a mynychodd yr ysgol gynradd ym Mhonterwyd. Pan oedd yn naw mlwydd oed symudodd y teulu i Gwmystwyth a mynychodd yr ysgol gynradd yno a mynd ymlaen wedyn i Ysgol Uwchradd Tregaron

Gweithiai ei thad yng ngwaith mwyn Cwmystwyth tan iddo gau ac yna aeth i weithio i Gyngor Sir Aberteifi yn un o'r tîm yn cynnal ffyrdd y Sir. Roedd ei thad yn fardd galluog ac fe sicrhodd Curigwen bod ei waith ar gael drwy gyhoeddi casgliad o'i gerddi - Cerddi Ufelwyn - yn 1977. Fel y crybwyllar diweddar J R Jones o Dal-y-bont yn y rhagair i'r gyfrol, 'hawdd gweld bod lle amlwg i ddiwylliant ar yr aelwyd. Cyfrannodd Ufelwyn yn ei ffordd ei hun yn hael at fywyd a diwylliant ei fro. Ef a'i debyg fu cynheilaid ein hiaith a'n gwareiddiad, ac mae'n dyled yn fawr iddynt'. Aelwyd a roddai pwyslais ar y pethau oedd yr aelwyd y magwyd Curigwen arni yn Steddfa Curig ac wedyn yng Nghwmystwyth.

Fel plentyn hoffai Curigwen ddarllen a gwrando ar y radio a chynorthwyo ei mam yn y tŷ. Y fam oedd brenhines yr aelwyd. Fel arwydd o gariad ei thad at ei ferch fechan dyma gerdd hyfryd a gynhwyswyd mewn llyfr o lofnodion a roddwyd i Curigwen gan ei thad.

I Curigwen fach

Canu mae'r fwyalchen	Cariad at ddaioni
Bêr, ym mrigau'r coed;	Yn dy galon boed
Cana dithau'n llawen	Ac ni thyf mieri
Gerddi wythmlwydd oed.	Byth o dan dy droed.

Mynd mae amser heibio
Fel y gwynt erioed
Ni chei gyfle eto
Byth ar wyth mlwydd oed.

Dad 30/12/1934

Ar ôl gadael ysgol aeth Curigwen i weithio i'r Fridfa Blanhigion ond ar ôl cyfnod yno fe aeth - fel llawer o'i chyfoedwyr - i chwilio am waith yn Llundain ac mewn byr o amser cafodd swydd yn un o siopau mawr y ddinas. Gwnaeth Curigwen lu o ffrindiau; byddai hefyd mae'n siŵr wedi mynychu un neu ragor o'r capeli Cymraeg yn y ddinas. Ar nosweithiau Sul byddai'r gymuned Gymraeg yn cwrdd yn Hyde Park ac yno y cyfarfu a Ieuan Griffiths. Roedd Ieuan fel Curigwen wedi gadael ei gartref yng Nghapel Bangor (Penlan Olau oedd enw'r fferm) i geisio gwaith yn Llundain.

Priododd y ddau a dychwelyd i Gymru - yn gyntaf i fferm Cyncoed Capel Bangor ac wedyn ymsefydlu yn Nhal y Bont Gwerthu hadau oedd galwedigaeth ei phriod (Dunn's Seeds) ac roedd yn adnabyddus iawn yn y byd amaethyddol. Ganwyd dau fab iddynt, David a Dilwyn ac roeddent yn falch iawn o lwyddiant eu plant. Pan oedd y bechgyn yn hŷn aeth Curigwen i weithio i Ysbyty Bronglais ac roedd yn uchel ei pharch yno. Ymwelodd Curigwen a'i gwr a'r meibion yn Washington State ar sawl achlysur ac wedi marw Ieuan teithiodd hithau i'r Amerig ar ei phen ei hun.

Gwyddom nad oedd Curigwen wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Collodd dipyn o'i hyder wedi'r ddamwain car a gafodd a bu fewn yn yr ysbyty ym Mronglais ar fwy nag un achlysur. Roedd hi'n ddynes hynod o garedig, hael iawn ei chymwynasau. Fel ei gweinidog gallaf dystio i hynny. Yn ogystal â'i gweld yn yr oedfaon yng nghapel Nasareth byddwn yn galw i'w gweld o dro i dro ar yr aelwyd yn Glan Leri. Roedd hi'n ddarllenwraig frwd a byddai'n hoffi sôn wrthyf am y llyfrau y byddai wedi'u darllen. Ganddi hi y cefais wybod am y llyfr ar hanes Tal-y-bont, sef "Ein Canrif". Cofiaf un tro i mi ei chludo adref ar ôl ei gweld yn disgwyl y bws y tu allan i Swyddfa'r Post yn Bow Street ar ôl iddi fod yn ymweld â'i ffrind Peggy Evans, Rhiwlan yng nghartref Tregerddan. Y tro olaf i mi ei gweld oedd rhyw wythnos neu ddwy cyn y Nadolig. Rhaid oedd imi adael gyda phot o farmlêd yn fy llaw. Dynes fel yna oedd Curigwen.

Roedd ganddi ffydd gref. Cymerai gysur o ddarllen barddoniaeth a gweithiau crefyddol gan wneud nodiadau manwl o'i darlenniadau. Cadwodd gyfres o ddyddiaduron gan roi ar gof a chadw digwyddiadau'r dydd ag ymweliadau a'r rhai a gyfarfu a hwynt. Roedd yn ddynes a gymerai amser i feddwl a synfyfrio am bethau gorau bywyd ac er y gellid dweud efallai iddi fyw bywyd syml dyma oedd ei dymuniad a'u dyhead. Byddwn i gyd yn gweld ei heisiau a chydymdeimlwn gyda David a Dilwyn a gweddill y teulu yn eu colled.

WM

Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion



Y Llywydd yn cyflwyno anrheg Gareth Evans ar ran y Gymdeithas

Cynhaliodd Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig Ceredigion eu cyfarfod blynyddol nos Fercher 25ain Ionawr 2012, yng nghlwb Cymdeithasol Penrhyncoch. 'Roedd yn gyfarfod arbennig iawn, oherwydd fod ein ysgrifennydd, Mr. Gareth Evans, yn ymdeol ar ôl bod yn y swydd am bum mlynedd ar hugain. Pan ymddeolodd Gareth o fod yn swyddog da byw dros Ogledd Cymru, cytunodd i fod yn ysgrifennydd y Gymdeithas yma, ac mae wedi ein harwain ers hynny. Mae Gareth yn un ohonom ni, yn byw yn Sŵn y Ffrwd, Bontgoch, ac wedi ei eni a'i fagu yn Llawrcwmbach, wrth droed Craig y Pistyll. Diolchodd ein cadeirydd, Mrs. Beryl Evans, Glanyrafon i Gareth am ei waith trylwyr a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2012-2013:

Llywydd: **Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail.**

Cadeirydd: **Huw Davies, Llety Ifan Hen.**

Is-gadeirydd: **Bryn Jones, Ceiro.**

Ysgrifennydd: **David Nutting, Tyhen Henllys.**

Trysorydd: **Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf.**

Cynrychiolwyr ar bwyllgor y Pum Sir: **Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.**

Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Babi Blwyddyn Naid

Bydd diwrnod olaf Chwefror eleni yn ddiwrnod o ddathlu i un plentyn arbennig yn Nhal-y-bont. Er ei fod dros 6 troedfedd o daldra, yn gwisgo esgidiau o faint mwy na'i dad, ac wedi ei eni yn 1996, bydd Eilir Huws, Henllan, yn dathlu ei ben-blwydd yn 4 oed. Ond sut gall hyn fod? Wel, yn anffodus i Eilir, cafodd ei eni ar Chwefror 29, sef diwrnod olaf Chwefror mewn blwyddyn naid.

Mae'n rhaid i chi deimlo trueni dros y crwtyn bach. Er ei fod bellach yn agosáu at 16 oed, dim ond 3 gwaith mae Eilir wedi gallu dathlu ei ben-blwydd ar y diwrnod y cafodd ei eni, hyd yn hyn. Dim ond 3 cacen pen-blwydd, 3 anrheg, 3 pharti mae e wedi cael dros yr holl flynyddoedd – wel, nid go iawn, ond rydych chi'n cael y syniad o sut y **gallai** pethau fod wedi bod!

Fel arfer, mae Eilir yn dathlu ei ben-blwydd ar y 1af o Fawrth, er, fe allai hefyd ddathlu ei ben-blwydd ar yr 28 o Chwefror, sef y diwrnod cyn iddo gael ei eni petai'n dymuno. Ydych chi wedi drysu eto? Wel dyna'r dewis sy'n wynebu pob babi blwyddyn naid.

Cyflwynwyd y syniad o flyddyn naid i mewn i'r calendr dros 2000 o flynyddoedd yn ôl gan yr Ymerawdwr Rhufeinig Iwl Cesar, ond dim ond tua 1500 o flynyddoedd yn ôl, pan gyflwynodd y Pab Gregory XIII y calendr Gregoraidd i'r byd, y daeth y flyddyn naid fel y mae heddiw i fodolaeth.

Mae'r calendr Gregoraidd wedi'i seilio ar gylchdro'r dddear o amgylch yr haul. Mewn blwyddyn arferol, mae'n cymryd tua 365 diwrnod a 6 awr (sef 365 ¼ diwrnod) i'r dddear gwmpasu'r haul. Bob 4 blynedd, felly, caiff yr oriau ychwanegol hyn eu hadio at ei gilydd er mwyn creu **diwrnod naid** – y diwrnod hwn yw Chwefror 29.

Mae nifer o draddodiadau yn cael eu cysylltu gyda diwrnod naid. Efallai mai'r enwocaf ohonynt yw'r traddodiad fod merch yn gallu gofyn i ddyn ei phriodi. Yn ôl yr hanes, mae'n debyg fod tarddiad yr arferiad hwn yn dyddio o Iwerddon yn y 5ed ganrif, pan wnaeth y Santes Brigit daro borgen gyda Sant Patrick i adael i ferch ofyn i ddyn ei phriodi. Y gred oedd fod hyn, am ddiwrnod, yn cydbwysu'r rôl rhwng dyn a dynes mewn bywyd, yn yr un modd ag y mae diwrnod naid yn cydbwysu'r calendr.

Mewn rhai gwledydd, roedd disgwyl i ddyn dalu ffordd drom i'r ferch petai'n gwrthod y cais hwn i'w phriodi - fel arfer byddai hyn yn golygu prynu dillad drud neu roi arian iddi. Mewn nifer o wledydd yn

Ewrop, disgwyliid i'r dyn brynu 12 pâr o fenig i'r ferch petai'n ei gwrthod – un am bob mis o'r flyddyn. Byddai'r merched yn gwisgo'r menig hyn wedyn i guddio'r ffaith nad oedden nhw'n gwisgo modrwy ddyweddio.

Yng ngwlad Groeg, fodd bynnag, credir ei bod yn anlwus i gyplau briodi ar Chwefror 29, ac mae nifer o gyplau'n osgoi priodi o gwbl mewn blwyddyn naid.

Yn naturiol, gan fod Chwefror 29 yn digwydd dim ond unwaith bob 4 blynedd, nid oes cymaint o bobl enwog yn dathlu eu

pen-blwyddi ar y dyddiad hwnnw o'u cymharu â gweddill diwrnodau y flyddyn. Ganed y Pab Paul III ar Chwefror 29 yn 1468, a'r cyfansoddwr Eidalaidd Gioacchino Rossini ar yr un diwrnod yn 1792. Mewn un cartref hynod yn Norwy ganed tri phlentyn ar dri 29 Chwefror dilynol i Mrs Karin Henriksen, sef Heidi yn 1960, Olav yn 1964 a Leif-Martin ar Chwefror 29, 1968.

Erbyn hyn, mae rhai o ddigwyddiadau mawr y byd yn digwydd yn ystod blwyddyn naid yn unig. I bawb sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth neu mewn chwaraeon, cynhelir Etholiadau Arlywyddol America, Y Gemau Olympaidd a Chwpan Pêl-droed UEFA yn ystod blwyddyn naid – y ddau olaf yn sicrhwr wrth fodd Eilir, ein babi blwyddyn naid ni.

Ond beth am fynd yn ôl at Eilir? Dyma ei farn yntau am ddyddiad ei ben-blwydd.

"Nid yw cael pen-blwydd ar 29 Chwefror yn fêl i gyd. Mae llawer o dynnu coes yn digwydd gan fy ffrindiau ac mae'n gallu mynd ar fy nerfau i weithiau. Ond wedi dweud hynny mae'n braf cael bod yn wahanol i bawb arall, ac mae'n gwneud fy mhen-blwydd yn fwy arbennig."

Mae Chwefror 29 yn ddiwrnod arbennig iawn yng nghalendr pob un ohonom, ond yn llawer mwy pwysig i'r rhai sy'n dathlu pen-blwydd ar y diwrnod hwnnw. Felly, os gwelwch Eilir ar y stryd yn Nhal-y-bont ar Chwefror 29 eleni, cofiwch ddymuno pen-blwydd hapus iddo. Ni fydd yn cael un arall am 4 blynedd!

Delyth Huws



Eilir Huws

Parhad o tudalen 1

Triathlon Tal-y-bont

Yma y mae clwb triathlon INTRtri, sydd â'i ganolbwynt yn Nhal-y-bont ond sy'n denu aelodau o ardal eang, yn cynnal ei sesiynau hyfforddiant 'tyrbo'. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â nhw, does dim angen profiad arnoch o gwbl. Dewch â'ch beic, a chaiff ei osod ar beiriant tyrbo sy'n efelychu amodau beicio ar y lôn. Mae croeso i feicwyr o bob gallu, gan fod modd amrywio pa mor anodd yw beicio ar bob peiriant unigol. Mae'r un mor addas felly, i ddechreuwr ag i feicwyr elit.

Pete Jenkins sy'n rhedeg y sesiynau, ac ef yw prif hyfforddwr clwb INTRtri, a sefydlwyd ganddo ef a'i wraig Helen ym mis Rhagfyr 2010 ac sydd bellach â 35 o aelodau. Un o ardal Machynlleth yw Pete, a Helen o Ddyfnaint, ond maent yn byw yn Nhal-y-bont ers deng mlynedd a mwy bellach, ac yn rhieni i Cati a Cai, efeilliaid 4 oed. Yn wir, yr efeilliaid oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer enwi'r clwb, gan eu bod yn gwrthod cerdded i unlle, hyd yn oed pan oedden yn ifanc iawn, gan fynnu 'I need to run!'

Bu Pete yn bencampwr Cymru yn y triathlon, ac mae wedi cynrychioli Cymru a Phrydain Fawr yn y gamp. Erbyn hyn mae'n un o ddim ond 5 hyfforddwr lefel 3 y BTF (Ffederasiwn Triathlon Prydain) sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae Helen yn rhannu ei henw â merch arall o Gymru sydd â siawns dda o ennill medal aur yng nghystadlaeth y triathlon yn y Gemau Olympaidd eleni. Nofio, beicio a rhedeg, yn y drefn honno, yw tair elfen y triathlon ac mae'r unigolion sy'n rhagori yn y tair camp yn athletwyr o

fri. Ond gall timau cyfnewid gymryd rhan hefyd, ac felly mae INTRtri yn croesawu aelodau sydd am ganolbwyntio ar nofio, beicio neu redeg yn unig, ac yn cynnig sesiynau hyfforddi ar y gyfer y tair elfen ar wahân.

O ran nofio, ceir sesiwn hyfforddi bob nos lau yn y ganolfan hamdden ym Machynlleth ac yna, rhwng y Pasg a mis Medi – pan fydd y dŵr damed bach yn gynhesach! – cynnig sesiynau nofio yn y môr bob pythefnos, oddi ar y prom yn Aberystwyth.

Yn ogystal â'r sesiynau tyrbo, cynhelir sesiwn feicio hir yn cychwyn o Dal-y-bont bob mis, a'r aelodau'n aml yn gorffwysu dros ginio yn y Llew Gwyn, lle mae'r clwb hefyd yn cynnal ei gyfarfodydd.

Cynhelir sesiynau rhedeg am yn ail wythnos hefyd, gan gychwyn o Fachynlleth neu Aberystwyth.

Mae'r clwb newydd sicrhau nawdd gan Chwaraeon Cymru i gynnal triathlon gwib yn Aberystwyth ar y 10fed o Fehefin eleni – y digwyddiad cyntaf o'i fath i'w gynnal yn Aberystwyth ers blynyddoedd lawer, os nad erioed, ac un o'r ychydig rasys triathlon yng Nghymru sy'n cynnwys elfen o nofio yn y môr yn hytrach nag mewn pwll. Dim ond hanner pellter triathlon Olympaidd yw triathlon gwib, ac felly mae'n addas ar gyfer unrhyw un sydd am roi cynnig arni. Nofio 750m yn y môr yn Aber, beicio o Aber i Dre'r Ddôl ac yn ôl (30km), ac yna rhedeg 5km. Beth amdani? Mae gennych ddigon o amser i ddechrau ymarfer!

Mae'r clwb wrthi'n datblygu ochr Gymraeg eu gwefan, www.intrtri.org.uk, a bydd y tudalennau'n barod o fewn ychydig wythnosau. Gallwch gysylltu â Pete neu Helen ar 832176 neu 07851 962059. Codir tâl o £4 ar gyfer sesiynau dan do a £2 ar gyfer rhai awyr-agored ac mae croeso i bawb.

Nia Peris

Ysgol Tal-y-Bont



Big Schools Birdwatch

Daeth pobl o'r RSPB i'r ysgol er mwyn ein dysgu am adar gwahanol a beth maen nhw'n bwyta. Chwaraeon ni lot o gemau fel jigsaw a chasglu bwyd. Roedd yn hwyl. Gwnaethom ni fwyd i'r adar gyda Miss Huw a'u rhoi o amgylch yr ysgol yna cyfron ni faint o adar oedd o gwmpas yr ysgol ar gyfer y Big Schools Birdwatch. Heledd, Billy a Jade

Cerdd y gadair

Diolch yn fawr i Hywel Griffiths (cyn ennilyd y gadair Eisteddfod yr Urdd) a ddaeth atom ni yng Nghyfnod Allweddol 2 i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o ysgrifennu cerdd ar gyfer cystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod yr ysgol. Cawsom fore hwyliog a gweithgar yn ei gwmni.

Cinio Tseiniaidd

Cawsom ni ginio Tseiniaidd ar y 27 ain o Ionawr er mwyn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Roedd blwyddyn 6 yn cael defnyddio 'chopsticks' – roedd hi'n ddoniol yn gwylio nhw. Roedd y bwyd yn flasus iawn – diolch Mrs. Jones. Fabien, Libby, Alex, Seren

Gala Nofio

Llongyfarchiadau mawr i'n nofwyr o gyfnod allweddol 2. Llwyddodd pob un a fu'n cystadlu yng ngala'r Urdd gyrraedd safon uchel iawn gan gynnwys tri canlyniad yn y safleoedd uchaf – Tomos Jenkins yn 1af dull broga, cyfnewid bechgyn bl.5 yn 2il a Gwydion James yn 3ydd dull rhydd.

Pêl rhwyd

Llongyfarchiadau i'r tîm fu'n chwarae yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Cafwyd cystadleuaeth frwd a llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd gyn-derfynol.

Penblwydd yr Urdd yn 90

Gwisgodd y plant coch, gwyn a gwyrdd ar ddydd Gwener 27 ain o Ionawr er mwyn dathlu penblwydd yr Urdd yn 90. Roedd Miss Huw wedi paratoi gêm gyda balŵns a Mrs Jenkins wedi coginio cacen blasus i ni. Glain, Hollie a Cian

RayCeredigion

Buom yn ffodus i dderbyn ymweliad oddi wrth aelodau o dîm RayCeredigion un amser cinio yn ddiweddar. Daethant â llond fan o adnoddau chwarae i ddiddanu'r plant a chafodd pawb amser chwarae wrth eu boddau.

Ymweliad Fumi Inui

Daeth Fumi Inui o Siapan i ymweld â blynyddoedd 3 a 4 a chawsom ni lawer o hwyl. Dysgom ni am y wlad a sut i ddweud ac ysgrifennu ein henwau mewn Siapaneg. Gwnaethom ni gwpanau origami a cheisïom ni ddefnyddio 'chopsticks'. Emily, Nia a Callum.



Cerdd y gadair



Ymweliad Fumi Inui



Cinio Tseiniaidd



Penblwydd yr Urdd yn 90



Pêl rhwyd



RayCeredigion



Gala Nofio



Gala Nofio

Cofio'r Erlid ar Ddiwrnod Coffáu'r Holocaust

A hithau'n Ddiwrnod Coffau'r Holocaust ar 27 Ionawr, mae gwasg y Lofa ar fin cyhoeddi cyfrol sy'n talu teyrnged i deulu a ddioddefodd yn sgil polisi hil-laddiad y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a hynny o ganlyniad i'w tras Iddewig.

Yn dilyn llwyddiant y rhaglen ddogfen fu'n olrhain hanes dirdynnol teulu Kate Bosse-Griffiths, *Y Tŷn i Ravensbruck*, mae holl hanes eu hymdrechion i oesoŷr hunllef i'w ganfod yn llawn rhwng cloriau cyfrol newydd Heini Gruffudd, *Yr Erid*.

Ceir hanes ysgytwol
llofruddiaeth mam Kate
Bosse-Griffiths, hunanladdiad ei
modryb ac erlid y teulu i bob cwr
o'r byd – hanes na fyddai'n bosib
ei adrodd oni bai am y mil a mwy
o ddalennau a gadwyd ym
meddiant y teulu, yn llythrau a
dyddiaduron, yn ysgrifau a
dogfennau. Ceir straeon o
ddioddef ac arwriaeth, caru a
chasaŵ, marwolaeth a goresiad.

Mae'r ddiweddar Kate Bosse-Griffiths yn enw cyfarwydd i'r Cymry. Ar ôl ffoi i Brydain i fyw, bu iddi briod i'r llenor a'r ysgolhaig J Gwyn Griffiths a symud i Gymru gan fyw yn y Rhondda, y Bala ac Abertawe. Daeth yn adnabyddus am ei nofelau a'i storïau, yn ogystal ag am ei diddordeb mewn archaeoleg ac Eifftoleg, a magodd ddau o blant yn Gymry pybyr, sef Heini Gruffudd, awdur *Yr Erlid*, a Robat Gruffudd, perchennog gwasg y Lolfa.



Gwasanaeth Tyllino Proffesiynol

yng nghysur eich cartref

**yn arbenigo mewn tylino corff ac ar
gyfer chwaraeon**

Am fanylion pellach cysylltwch a Michelle ar
y ffon **01654 781314** or **07984 501479**

michellejsymes@btinternet.com

Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion. SA46 0PA

A hithau'n Ddydd Mawrth Ynyd ar 21 Chwefror beth am rhoi cynnig ar rysait ychydig yn wahanol gan Mair Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont.

Crempog llus duon

100g (4 owns) o flawd hunan-godi

100g (4 owns) o siwgr caster

300ml (1/2 pint) o hufen sengl

2. wv (wedi gwahanu)

25g (1 ouns) o fenyn

150g (5 owns) o lus duon

- Cymysgwch y blawd a'r siwgr mewn bowlen, ychwanegwch yr hufen a'r ddau felynwyl.
- Chwisgwch y ddau wynwyl nes yn drwchus a'i troi i fewn i'r cyteu yn ysgafn.
- Toddwch y menynd mewn sosban a rhoi ei hanner yn y cyteu.
- Irwch padell ffrio gydag ychydig o weddill y menynd.
- Rhowch lwyaid neu ddwy o'r cyteu ar y badell ffrio a sgewtiwch 5-6 o lus duon dros y gymysgedd.
- Unwaith fydd swigod yn ymddangos, trowch y grempog a'i choginio am 2 funud ar yr ochr arall.

‘Dal dy Dafod’

'Wrth ddathlu hanner can mlynedd o frwydr iaith yma yng Nghymru ers i Saunders Lewis ddarlledu ei ddarlith 'Tynged yr Iaith', bydd y sioe hon yn ail-fyw gormes ac yngyrchoedd y gorffennol drwy gerddi a chaneuon ac yn trafod yr her sy'n wynebu siaradwyr y Gymraeg heddiw'.

Dyna ddisgrifiad Myrddin ap Dafydd o 'Dal dy Dafod', sioe farddol newydd Twm Morys, Mei Mac, Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd a Geraint Løvgreen, a ddaeth fel rhan o raglen Clwb Nos Wener Tal-y-bont i'r Llew Gwyn nos Wener, 27 Chwefror.

‘Ches i ddim cyfle i fynd i weld y sioe yn Steddfod Wrecsam y llynedd, felly ro’n i’n falch iawn bod y Clwb Nos Wener wedi llwyddo i’w denu i’n pentre bach ni. Ac os byddai’r sioe hon hannerystal â’r un flaenorol, sef ‘Iwan ar Daith’, a welais yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent, byddai hi’n werth ei gweld.

Ond, a bod yn gwbl onest, braidd yn siomedig o'n i. Peidiwch â
 'nghamddeall i. Roedd rhai cerddi, yn enwedig cerddi Myrddin, yn
 arbennig o drawiadol, ac roedd un cywydd gan Mei Mac am y profiad o
 fod yn Cymro Cymraeg yn grafog dros ben. Ond teimlo o'n i fod y criw
 wedi ceisio rhychwantu canrifoedd o hanes y Gymraeg, a bod y sioe felly
 braidd yn dameidiog. Yn bersonol, dwi'n meddwl y byddai'r sioe wedi bod
 yn well pe baen nhw wedi canolbwyntio ar hanes ymgyrchoedd mwy
 diweddar, er mwyn rhoi mwy o strwythur a naws fwy cyfoes i'r sioe. Ond fy
 marn bersonol i yw hon, wrth gwrs. Mae'n siwr y byddai sawl un yn
 anghytuno'n chwynr! Ar nodyn mwy cadarnhaol, braf iawn oedd clywed
 rhai o ganeuon protest mwyaf adnabyddus Geraint Løvegren, ac roedd
 llais Tecwyn Ifan wrth iddo ganu clasuroln fel 'Eryr Eli' a 'Stafell Cynddylan'
 mor ifanc a phur ag erioed. Uchafbwynt y noson, a dweud y gwir.

Delyth Ifan



We do right by you

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

**Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:**

01970 612331

www.nfmutual.co.uk/abervystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 11982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Tai Fforddiadwy

Ar ddechrau'r cyfarfod llawn cyntaf o'r Cyngor yn y flwyddyn newydd rhoddodd Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, gyflwyniad cychwynnol o'r arolwg i anghenion tai fforddiadwy a gynhaliwyd yn ardal *Papur Pawb* fis Hydref y llynedd. Er nad yw'r dasg o ddadansoddi'r holl wybodaeth a gasglwyd wedi ei chwblhau eto, roedd y cyflwyniad yn dangos bod galw sylweddol gan drigolion lleol am gartrefi fforddiadwy i'w rhentu a/neu prynu dros y pum mlynedd nesaf. Ymhlith casgliadau eraill yr arolwg roedd y canlynol: i) bod mwyafrif y rhai a ddychwelodd yr holiadur (61%) o blaid 'datblygiad bach o dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol' a dim ond 12% yn erbyn; ii) Ymhlith y rhesymau neu'r amodau a roddwyd o blaid 'datblygiad' o'r fath oedd er mwyn cynnal y Gymraeg a Chymreictod, cadw pobl ifanc yn yr ardal, cadw teuluoedd gyda'i gilydd a chynnal yr ysgol, a hefyd oherwydd bod tai ar y farchnad agored mor ddrud. Pan gwblheir y dadansoddiad caiff yr adroddiad ei ddosbarthu'n eang. Er nad oedd cwestiwn yn yr holiadur ar ddatblygu unrhyw safle penodol, gwirfoddolodd 19 o ymatebwyr i fynegi barn am gynlluniau presennol Tai Ceredigion i godi pedwar o gartrefi fforddiadwy ym Maes-y-deri. O'r ymatebion hyn dim ond 1 allan o 18 oedd o blaid cynlluniau presennol Tai Ceredigion.

Llwybr Troed

Adroddwyd fod Cyngor Sir Ceredigion yn ymwybodol o'r ffaith bod coed wedi gordyfu nes cau'r llwybr cyhoeddus rhwng gwaith Bwlch-glas ac Allt-ddu. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cytuno i glirio'r rhwystrau ar y cyfle cyntaf, a byddant hefyd yn clirio'r llwybr ar wely hen lein yr Hafan drwy'r coed ar bwys gwaith Bwlch-glas. Croesawyd y newyddion gan y Cyngor.

Goleuadau Nadolig

Aeth y trefniadau i gynnu'r goleuadau Nadolig rhagddynt yn ddifai yn Nhal-y-bont a Bont-goch. Cytunwyd i anfon llythyrau diolch at Dilwyn Lewis ac Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, a diolchodd y Cadeirydd hefyd i aelodau'r Cyngor am eu cymorth hwythau gyda'r seremoni a'r lluniaeth. Cytunwyd i brynu goleuadau newydd ar gyfer y Neuadd erbyn Nadolig 2012.

Llwybr Newydd i'r Fynwent

Nid yw'r tiffeddiannwr yn fodlon i'r Cyngor godi llwybr troed drwy'r cae rhwng y fynwent a'r fynedfa i Danrallt. Serch hynny, roedd yn fodlon bod palmant yn cael ei godi ar ochr y ffordd fawr. Cytunwyd i gysylltu â'r Asiantaeth Priffyrdd i weld a oedd modd rhoi cynllun ar waith.

Chwarae Plant

Derbyniwyd cais gan *Ray Ceredigion* am ganiatâd i ddefnyddio'r Maes Chwarae tu ôl i'r byngalos ym Maes-y-deri i gynnal sesiynau chwarae rhwng 3.45 a 6.15 y pwn yn ystod y tymor ysgol a rhwng 9.45 a 12.15 y bore yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae Prosiect Chwarae Plant *Ray Ceredigion*, a ariennir gan y Loteri Fawr, yn darparu sesiynau chwarae yn rhad ac am ddim i gymunedau ar draws Ceredigion. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwneud manau cuddio, gwisgo lan, peintio a choginio yn yr awyr agored. Mae gan y Prosiect dîm o weithwyr chwarae a cherbyd yn llawn cyfarpar ac adnoddau. Cytunodd y Cyngor i roi ei ganiatâd i ddefnyddio'r maes chwarae ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Ceisiadau Cynllunio

Nodwyd fod yr Awdurdod Cynllunio wedi caniatáu'r ceisiadau canlynol: codi 4 annedd ym Maes-y-deri; gosod ffenestr to wydr ym Mhlas Cefngwyn; datblygu cynllun trydan hydro ym Moelgolomen; codi modurdy a sied ym Mhenlôn, Tal-y-bont a chodi estyniad i sied amaethyddol ym Mhenrhos.

Cymorthdaliadau 2011/12

Derbyniwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol i ddosbarthu cyfanswm o £3,055 mewn grantiau rhwng y cymdeithasau a'r clybiau lleol canlynol: Neuadd Goffa; Cylch Meithrin; Cymdeithas Maes Chwarae'r Odyn Galch; Cymdeithas Papur Pawb; Clwb Pêl-droed; Clwb Pysgota; Sefydliad y Merched; Clwb Pêl-droed Ieuencid; Clwb Ffermwyr Ieuainc a'r Clwb Nos Wener. Hefyd cytunwyd i rannu £275 rhwng pum elusen/cymdeithas yng Ngheredigion, sef, Cyngor ar Bopeth Ceredigion; Home-Start Ceredigion; Urdd Gobaith Cymru; Cymdeithas Aredig Ceredigion 2012 a Chanolfan Therapi Ocsigen Aberteifi. Yn ogystal, rhannwyd £390 rhwng naw o elusennau cenedlaethol.

Y Gair Olaf



Mi oeddwn i'n gegrwth gynddeiriog. Wedi croesi'r caeau i'r de o Dre Taliesin a chyrraedd y llwybr hyd dorlan y Pwll Du – y ffos ddraenio sy'n rhedeg hyd ymyl y Figyn tua'r Borth – dyma ddarganfod bod rhywrai, dros nos bron, wedi gweld yn dda i orchuddio'r glesni a fu yno gynt o dan slafan o lwybr caled, llwyd a ymlusgai'r holl ffordd draw i gyrion y tir glas o dan Ynys y Capel.

Rhaid cynnal a chadw llwybrau a'u diogelu – ond siawns bod ffordd fwy cydawns o wneud hynny na dull yr wiber lwyd yma sy'n llyncu darnau mawr o'n llwybrau glas ledled y wlad.

Da o beth hefyd yw helaethu hygyrchedd a mynediad i bobl anabl ac mewn cadeiriau olwyn ond nid dyna sydd dan sylw ger y Pwll Du gan fod deupen y llwybr yn anhygyrch i ddefnyddwyr anabl beth bynnag.

Dofi a 'diwyllio' cefn gwlad – hwnna ydi o, ac yn slei bach mae'n digwydd dros bobman. Cymerwch y llwybr i fyny i'r coed o dros ffordd i'r ciosg ffôn yn Nhre Taliesin ei hun. Hen lwybr bach annwyl wedi'i golli dan haenen lwyd anghynnes gyda'r croen plastig bondibethma 'na i'w weld ar hyd yr ymylon.

A'n gwaredo rhag yr uffurfiaeth faestrefol erchyll yma sy'n ceisio lapio pawb mewn gwlan cotwm a'n twyllo ein bod yn gallu rheoli natur.

Braf yw gweld bod natur yn barod yn dechrau mynd yn drech na'r rhuban llwyd ger y Pwll Du.

Martin Davis

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Hoci

Yn ddiweddar, bu Gwenno Evans a Nia Jones yn chwarae hoci i dîm De Orllewin Cymru o dan 16. Ar ôl chwarae i Geredigion gwahoddwyd y ddwy i ymuno â merched o Abertawe, Caerfyrddin a Phenfro ar gyfer treialon y De Orllewin. Yn dilyn ymarferion yn Rhydaman dewisiwyd y ddwy i'r garfan derfynol o 16.

Ar ddydd Sadwrn y 21ain o Ionawr cynhaliwyd twrnamaint yn Wrecsam gyda tîm y Gorllewin yn cystadlu yn erbyn Gogledd Cymru a De Ddwyrain Cymru.

Cafwyd dwy gêm gyffrous ac agos gyda'r Gorllewin yn fuddugol ar gyfanswm goliau.

Mae'r merched yn ddisgyblion blwyddyn 10 ym Mhenweddig ac yn chwarae i dîm dan 16 ac o dan 18 yr ysgol yn ogystal a tîm Bow Street yng nghyngair 4 y Gorllewin.



Talybont dan 11

Talybont dan 11 yn gwisgo siacedi newydd a noddwyd gan Geraint James, Golchdy Llanbadarn. Mae'r tîm yn cael tymor da, wedi chwarae 10 gêm, ennill 4, 1 cyfartal a cholli 5. Da iawn chi bois.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefneg, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwener
(01970) 832 674



Teirw Talybont

Tîm pêl-droed Teirw Talybont dan 11 yn eu cit newydd a noddwyd gan Cambrian Land Rover. Mae'r tîm yn cael tymor da, wedi ennill 10 gêm, 2 gêm gyfartal a cholli 1. Da iawn fechgyn.

NOSON HWY DDEWI

Yng nghwmni
Parti Cut Lloir
Cawl a Chedeh

Tocynnau:
£8 oedolion
£3 plant 4-9o

Newydd Goffa Talybont
7.00 o'r gloch

Nos Sadwrn
25^{en}
CHWEFFROR

Rhaid archebu tocyn ymlaen llaw
(01970) 832 448

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

